

DYDD IAU, 30 TACHWEDD 2023

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AML-LEOLIAD Y CYNGOR SIR A GYNHELIR YN SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 6ED RHAGFYR, 2023 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-

[HTTPS://CARMARTHESHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME](https://carmarthenshire.public-tv/core/portal/home)

Swyddog Democrataidd:	Emma Bryer
Ffôn (llinell uniongyrchol):	01267 224029
E-bost:	ebryer@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (OS OES RHAI)
4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)
5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y 8FED TACHWEDD, 2023 5 - 18
6. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU CANLYNOL
 - 6.1 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23 19 - 58
7. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD AR Y
 - 7.1 30AIN HYDREF, 2023 59 - 68
 - 7.2 13EG TACHWEDD, 2023 69 - 72
8. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-
 - 8.1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR JOHN JAMES A ANN DAVIES

“Mae'r Cyngor hwn yn condemnio torfladdiad erchyll pobl ddiniwed yn Israel ar 7 Hydref. Mae'r Cyngor hefyd wedi'i frawychu gan faint a chanlyniadau'r dial milwrol parhaus yn Gaza. Rydym felly yn galw ar y gymuned ryngwladol i wneud y canlynol:

 - i. Uno i ddarparu'r ymateb dyngarol sydd ei angen i ddiogelu bywydau diniwed sydd wedi'u dinistrio gan y gwrthdaro hwn, a sicrhau bod mynediad at fwyd, dŵr, meddyginiaethau a'r ffynhonnell bŵer, sydd eu hangen ar frys.
 - ii. Ceisio cadoediad ar unwaith i ddod â'r dioddefaint dynol presennol i ben.
 - iii. Cefnogi'r alwad gan gymunedau ledled y byd i'r **HOLL** wystlon gael eu rhyddhau a'u dychwelyd adref at eu teuluoedd.
 - iv. Gweithio gyda chynrychiolwyr Israel a Phalesteina i ddod â'r gwrthdaro presennol i ben a thrafod setliad heddwch parhaol sy'n darparu diogelwch a dyfodol tymor hir heddychlon i'r ardal hon, yn seiliedig ar yr

9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

10.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD HEFIN JONES I'R CYNGHORYDD ALUN LENNY, YR AELOD CABINET DROS ADNODDAU

“Wrth nodi'r meini prawf tebygol o ran cael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol, cadarnhaodd gweinidogion Llywodraeth Cymru, a'r Prif Weinidog ei hun, yn ddiweddar y byddai'n debygol y byddai angen i 10% o dir mentrau ffermio sy'n cael ei ffermio fod o dan orchudd coed, a 10% arall fod fel tir cynefin. Yn ogystal, mae posibilrwydd cryf y bydd angen i fusnesau ffermio weithredu ystod o ddulliau atafaelu carbon ar dir y maent yn ei reoli i liniaru eu hallyriadau eu hunain, a/neu geisio ymgymryd â gwaith rheoli cynefinoedd yn unol â chynlluniau cymorth i sicrhau cynaliadwyedd.

Hefyd mae gan awdurdodau lleol uchelgeisiau mewn perthynas â choedwigo, ynghyd â dyheadau a thargedau ar gyfer lleihau a lliniaru allyriadau.

A wnaiff yr aelod cabinet dros adnoddau roi sicrwydd NA FYDD Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio defnyddio tir sy'n ffurfio rhan o ddaliadau ffermio'r Cyngor ar gyfer prosiectau coedwigo i gyflawni ei uchelgeisiau ei hun neu i gyflawni ei dargedau ei hun, a sicrhau bod mentrau ffermio a chynhyrchu cynradd sy'n cael eu rhedeg gan denantiaid ar ystadau gwledig y cyngor yn cael y cyfle gorau posibl i fod yn gynaliadwy ac yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau gwledig yn y sir hon?”

11. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

11.1 MAE'R AELODAU ANNIBYNNOL HEB GYSYLLTIAD WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD JOHN JAMES I GYMRYD EU SEDD WAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID HINSAWDD

12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

12.1 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 24AIN HYDREF, 2023

12.2 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 27AIN HYDREF, 2023

12.3 CYD-BWYLLGOT PARTNERIAETH - 6ED HYDREF, 2023

12.4 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 31AIN HYDREF, 2023

12.5 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 9FED TACHWEDD, 2023

- 12.6 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 15FED TACHWEDD, 2023**
- 12.7 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN - 15FED TACHWEDD, 2023**
- 12.8 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 21AIN TACHWEDD 2023**
- 13. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**
- 14. CWM ENVIRONMENTAL LTD CYFLEUSTER ADFER ADNODDAU (RRF) - COSTAU AILADEILADU A CHAIS AM FENTHYCIAD** 73 - 80

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 8 TACHWEDD 2023

PRESENNOL Cynghorydd B.A.L. Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	K.V. Broom	J.M. Charles	P. Cooper
M.D. Cranham	C.A. Davies	G. Davies	H.L. Davies
K. Davies	L. Davies	S.L. Davies	T. Davies
L.D. Evans	W.T. Evans	J.P. Hart	T.M. Higgins
J.K. Howell	P. Hughes-Griffiths	J.D. James	M. James
J.P. Jenkins	H. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis
N. Lewis	A. Leyshon	K. Madge	D. Nicholas
M. Palfreman	D. Price	H.B. Shepardson	E. Skinner
D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas	M. Thomas
J. Tremlett	A. Vaughan Owen		

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

D.M. Cundy	S.A. Curry	A. Davies	T.A.J. Davies
C. Davies	LI.M. Davies	M. Donoghue	A. Evans
D.C. Evans	H.A.L. Evans	N. Evans	R.E. Evans
S. Godfrey-Coles	A.D. Harries	R. James	G.H. John
B.W. Jones	A.C. Jones	D. Jones	G.R. Jones
A.G. Morgan	D. Owen	B.D.J. Phillips	E. Rees
S.L. Rees	E.M.J.G. Schiavo	R. Sparks	F. Walters
	ne		
P.T. Warlow	D.E. Williams	J. Williams	

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr
 C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
 J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
 G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
 A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
 P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
 L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
 G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd
 L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
 S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
 R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
 K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd
 R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):

R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 1.20 yp

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

(Noder:

- Am 12:54pm tynnwyd sylw'r Cyngor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:00pm, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn ystyried y materion a oedd yn weddill ar yr agenda.)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen, A. Davies, B. Davies a P. Hughes.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
H. Shepardson	6 – Cyflwyniad gan Roger Thomas, Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Aelod o'r Awdurdod Tân
K. Broom	6 – Cyflwyniad gan Roger Thomas, Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Aelod o'r Awdurdod Tân
E. Williams	6 – Cyflwyniad gan Roger Thomas, Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Aelod o'r Awdurdod Tân
G. Thomas	6 – Cyflwyniad gan Roger Thomas, Prif Swyddog Tân, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	Aelod o'r Awdurdod Tân
E. Thomas	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Llandeilo
J. Tremlett	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Talacharn
A Lenny	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Caerfyrddin
H.A.L. Evans	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
C.A. Jones	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Llansteffan
Andrew Davies	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Bannau Brycheiniog

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

D. Phillips	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Yn byw yn Ardal Gadwraeth Llanboidy
D. Jones	9.3 - Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth	Mae Prosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr yn yr ardal

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (OS OES RHAI)

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu lansiad Apêl y Pabi yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghaerfyrddin.
- Amlinellodd y Cadeirydd gefnogaeth y Cyngor i Ddiwrnod y Rhuban Gwyn a fyddai'n cael ei gynnal ar 25 Tachwedd 2023 i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a gwasanaethau lleol sydd ar gael i helpu dioddefwyr a goroeswyr.
- Ar ôl i'r Cadeirydd estyn gwahoddiad iddynt wneud, bu i'r Cynghorwyr canlynol annerch y Cyngor:-
 - Cododd y Cynghorydd Linda Evans ymwybyddiaeth o Apêl Teganau Nadolig eleni gan bwysleisio y byddai costau byw cynyddol yn effeithio ar lawer o blant a theuluoedd eleni ac felly anogodd yr aelodau i gyfrannu at yr Apêl a chodi ymwybyddiaeth ohoni yn eu wardiau.
 - Dywedodd y Cynghorydd John Jenkins mai cyfarfod y Cyngor y dyddiad hwnnw fyddai ei gyfarfod olaf gan ei fod wedi penderfynu ymddiswyddo fel Cynghorydd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin oherwydd ymrwymadau teuluol a gwaith. Bu'n myfyrio ar ei gyfnod fel cynghorydd sir ers cael ei ethol i Ward Elli yn Llanelli yn 2004. Mynegodd ei werthfawrogiad i aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor am eu harweiniad a'u cymorth yn ystod y cyfnod hwnnw gan estyn ei ddymuniadau gorau at y dyfodol hefyd. Soniodd hefyd am yr anrhydedd o gael ei ethol gan bobl ward Elli i'w cynrychioli ar y Cyngor.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Cafodd y Cyngor y ddau gyhoeddiad canlynol gan Aelodau Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Alun Lenny, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, at Ddatganiad yr Hydref a fyddai'n cael ei gyhoeddi gan Ganghellor y DU cyn bo hir. Ar ôl hynny, ym mis Rhagfyr 2023, byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi lefel y Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer 2024/25. Soniodd am y pwysau ariannol difrifol y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu yng Nghymru ac yn Lloegr a dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at y Canghellor yn hynny o beth yn ei annog i ddarparu cyllid digonol i Lywodraeth Cymru, drwy fformiwla Barnett, i'w galluogi, yn ei dro, i ddarparu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Leol yng Nghymru barhau i gynnal gwasanaethau hanfodol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Adleisiodd y Cynghorydd Glynog Davies, yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg, sylwadau'r Cynghorydd Lenny a chyfeiriodd yn benodol at yr effaith yr oedd cyfyngiadau ariannol yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau addysg. Yn benodol, effaith y gostyngiad o £40m mewn cyllid i raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor a oedd hefyd yn wynebu cynnydd mewn costau adeiladu a chynnal a chadw. O ganlyniad i'r pwysau hynny, dywedodd fod y rhaglen bresennol yn anghynnaladwy a'i bod yn cael ei hailarchwilio ac y byddai'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w hystyried maes o law.

5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR Y 11EG HYDREF 2023

Nodwyd y dylai'r Cynghorydd K. Davies fod wedi'i chynnwys yn y rhestr o aelodau a oedd yn bresennol yn rhithwir yng nghyfarfod y Cyngor ar 11 Hydref 2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2023 gan eu bod yn gywir.

6. CYFLWYNIAD GAN BRIF SWYDDOG TÂN ROGER THOMAS, GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU.

[Sylwer: Roedd y Cynghorwyr K. Broom, H. Shepherdson, G.B. Thomas ac E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a bu iddynt ailadrodd eu datganiad ac aros yn y cyfarfod tra oedd y Cyngor yn ystyried yr eitem.]

Cafodd Roger Thomas, y Prif Swyddog Tân, Mrs Sarah Mansbridge, Swyddog Adran 151 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a'r Cynghorydd Gwynfor Thomas, Cadeirydd yr Awdurdod Tân, eu croesawu i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Adran 151 drosolwg o waith y Gwasanaeth Tân ac Achub gan fanylu ar waith y Gwasanaeth Tân, gan gynnwys yr heriau gweithredol ac ariannol presennol.

Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Tân, y Swyddog Adran 151 a Chadeirydd yr Awdurdod Tân am ddod i'r cyfarfod ac am y cyflwyniad.

7. AILBENODI AELODAU CYFETHLEDIG O'R PWYLLGOR SAFONAU AM GYFNOD PELLACH YN Y SWYDD

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad ynghylch ailbenodi Mrs Daphne Evans a Mrs Julie James i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod pellach yn y swydd. Nododd yr adroddiad er bod y ddau aelod wedi'u penodi gan y Cyngor yn 2017 am gyfnod o 6 blynedd, a fyddai'n dod i ben ar 12 Rhagfyr, 2023, bod Rheoliad 21 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn darparu ar gyfer ailbenodi

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

aelodau am gyfnod pellach o ddim mwy na 4 blynedd heb fod angen ailhysbysebu'r swydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi Mrs Daphne Evans a Mrs Julie James am gyfnod pellach o 4 blynedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor am y cyfnod 12 Rhagfyr 2023 – 12 Rhagfyr 2027.

8. AELODAETH PWYLLGORAU CRAFFU, PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO A PHWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR A PHENODI AELODAU I WASANAETHU ARNYNT

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, fel y'u diwygiwyd, bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad yn manylu ar ganlyniad adolygiad o aelodaeth Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rheoleiddio a phwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn cael hysbysiad o'r canlynol:-

- Nid oedd y Cynghorydd John James i'w drin mwyach fel Aelod o'r Grŵp Llafur,
- Roedd y Cynghorydd Emyr Rees wedi gadael y Grŵp Llafur a,
- Diddymu'r Panel Adolygu Tai.

O ganlyniad i'r adolygiad uchod, nodwyd y byddai diddymu'r Panel Adolygu Tai yn arwain at ostyngiad yn nifer y seddi Pwyllgor ar y Cyngor o 168 i 160.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, o ganlyniad i'r newidiadau i aelodaeth wleidyddol gyffredinol y Cyngor a diddymu'r Panel Adolygu Tai:

- 8.1 Lleihau nifer y seddi Pwyllgor ar y Cyngor i 160, wedi'u rhannu fel a ganlyn:**
- **Craffu – 67**
 - **Rheoleiddio ac Eraill - 93**
- 8.2 Mabwysiadu'r newidiadau i nifer y seddi a ddelir gan y Grŵp Llafur, Grŵp Plaid Cymru ac Aelodau heb Gysylltiad Pleidiol, fel y manylir yn Nhablau 2 a 3 yr adroddiad.**
- 8.3 Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2), cymeradwyo'r newidiadau yn Aelodau'r Pwyllgorau yn sgil penderfyniad 8.2 uchod (fel y manylir yn yr adroddiad).**
- 8.4 Yn unol â Rhan 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, nodi nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer dyraniad y 5 Cadeirydd Craffu yn newid.**

9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

9.1. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2022/23 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MABWYSIEDIG SIR GAERFYRDDIN (2006 - 2021)

Dywedwyd wrth y Cyngor bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 16 Hydref 2023 (cofnod 10), wedi ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol 2022/23 yn ymwneud â

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Chynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin (2006-2021) a oedd wedi'i baratoi'n unol â darpariaethau Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol 2005. Nodwyd, yn unol â Dyletswydd Statudol y Cyngor, y byddai'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref 2023.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

“y dylid cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Gaerfyrddin, ac awdurdodi swyddogion i wneud newidiadau teipograffyddol neu ffeithiol yn ôl yr angen i wella ei eglurder a'i gywirdeb”

9.2. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR GÂR AR GYFER 2022-23

Dywedwyd wrth y Cyngor bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2023 (cofnod 6), wedi ystyried Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2022/23 yn ymwneud â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27, a gyhoeddwyd yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei amcanion Llesiant ac o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i adrodd ar ei berfformiad yn seiliedig ar ddull hunanasesu. Nodwyd mai nod yr adroddiad oedd bodloni'r ddau ofyniad uchod mewn un ddogfen a'i fod yn cynnwys gwybodaeth am y pedwar Amcan Llesiant a'r Galluogwyr Busnes Craidd ac yn asesu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

“cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2022-23”.

9.3. ARFARNIADAU O ARDALOEDD CADWRAETH

[Roedd y Cyngorwyr Andrew Davies, H.A.L. Evans, C.A. Jones, D. Jones, A. Lenny, D. Phillips, J. Tremlett ac E. Thomas wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon yn gynharach a bu iddynt aros yn y cyfarfod a phleidleisio.]

Dywedwyd wrth y Cyngor bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 30 Hydref 2023 (cofnod 8), wedi ystyried adroddiad ynghylch yr Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth a oedd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed i adolygu deg o'r Ardaloedd Cadwraeth dynodedig ledled y Sir a'r gwaith dilynol o baratoi ac ymgynghori ar yr arfarniadau ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Cadwraeth a nodwyd. Nodwyd bod yr adroddiad yn amlinellu'r broses a'r adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cysylltiedig, gan nodi'r arfarniadau drafft terfynol o ardaloedd cadwraeth ac unrhyw welliannau a argymhellwyd o ran yr Ardaloedd Cadwraeth eu hunain ynghyd â manylu ar y camau nesaf mewn perthynas â'r broses reoleiddio sydd ei hangen i ddiwygio'r Ardaloedd Cadwraeth yn ffurfiol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mewn ymateb i gais a ddaeth i law am ddatgan rhannau o ardal Ffwrnes yn Llanelli, sy'n gysylltiedig ag Alexander Raby, meistr haearn o'r ddeunawfed ganrif, yn ardal gadwraeth, nodwyd y byddai swyddogion yn cysylltu â'r aelod a gododd y mater.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

“8.1 - cymeradwyo canlyniad yr Arfarniadau o Ardaloedd Cadwraeth a'r gwelliannau a argymhellir i Ffiniau Ardaloedd Cadwraeth,

8.2 - awdurdodi swyddogion i ymgymryd â phrosesau rheoleiddio sy'n angenrheidiol i ddiwygio ffiniau Ardaloedd Cadwraeth yn ffurfiol fel yr argymhellir”.

10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 16EG HYDREF 2023

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2023.

HYD Y CYFARFOD

Am 12:54pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y cyfarfod – ac, oherwydd y byddai'r cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr am 1:00pm,

PENDERFYNWYD bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu ystyried yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.

11. CYMERADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-

11.1. MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD DERYK CUNDY I LENWI'R SEDD A OEDD YN PERTHYN YN GYNT I'R CYNGHORYDD KEVIN MADGE AR Y PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Grŵp Llafur i'r Cynghorydd D. Cundy gymryd lle'r Cynghorydd K. Madge ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

11.2. MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD LEWIS DAVIES I LENWI Y SEDD WAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Grŵp Llafur i'r Cynghorydd L. Davies gymryd ei sedd wag ar y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg.

11.3. MAE'R GRWP LLAFUR WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD CRISH DAVIES I LENWI'R SEDD A OEDD YN PERTHYN YN GYNT I'R

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CYNGHORYDD ROB EVANS AR Y PWYLLGOR CRAFFU IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Grŵp Llafur i'r Cynghorydd Cris Davies gymryd lle'r Cynghorydd R. Evans ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

12. **ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD YN DILYN SWYDD WAG CANOL TYMOR**

Yn unol â Rheol 4 (2) o Weithdrefn y Cyngor, bu'r Cyngor yn ystyried dau enwebiad a oedd wedi dod i law i ethol Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn swydd wag canol tymor.

Yn dilyn pleidlais

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd M. Cranham yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

13. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

14. **CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

14.1. **CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES I'R CYNGHORYDD ANN DAVIES, AELOD CABINET DROS FATERION GWLEDIG, CYDLYNIANT CYMUNEDOL A PHOLISI CYNLLUNIO**

Cwestiwn gan y Cynghorydd James:

"Mae'r cyhoeddiad diweddar gan Dŵr Cymru bod llawer o'i safleoedd trin dŵr gwastraff ar hyn o bryd yn gollwng carthion heb eu trin yn anghyfreithlon i afonydd a'r môr drwy beidio â chadw at eu trwyddedau wedi dychryn trigolion Sir Gaerfyrddin yn fawr.

Gan ystyried y camau rhagweithiol a gymerwyd eisoes gan y Cyngor hwn ynghylch crynodiad ffosfforws yn ein dyfroedd yma yn Sir Gaerfyrddin; Beth mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn ei wneud i herio Dŵr Cymru ar yr arfer anghyfreithlon hwn, ac a wnewch chi, y Cynghorydd Davies, gysylltu â Dŵr Cymru i drafod pa fesurau y mae'r cwmni yn bwriadu eu cyflwyno i sicrhau nad yw esgeulustod o'r fath i'n hamgylchedd ac i iechyd a llesiant ein preswylwyr yn digwydd eto".

Ymateb gan y Cynghorydd Davies:

Diolch i chi John am y cwestiwn.

Gallaf eich sicrhau chi a'r holl gynghorwyr fy mod wedi siomi'n ddirfawr i weld bod dros 223 achos o dorri caniatâd gollwng wedi digwydd yng Nghymru ers 2018 ac mae'r rhain yn cael effaith andwyol ar fioamrywiaeth afonydd ac ni ddylid digwydd yn yr 21^{ain} ganrif. Rwy'n nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

rhybudd i Dŵr Cymru a hysbysiadau gorfodi ac rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd Dŵr Cymru i ofyn am ymateb ffurfiol ac o ran yr adroddiad i ofyn pam cafwyd cymaint o achosion o dorri rheolau yng Ngarnswllt a Llannon a'r effaith ar yr aber hwn yng Nghaerfyrddin. Nid yw hyn yn ddigon da. Yr ateb, fel rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd yn sylweddoli, yw buddsoddiad.

Fel Aelod Cabinet Materion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio a Chadeirydd Bwrdd Rheoli Maetholion Tywi, rwyf wedi cwrdd â Dŵr Cymru i bwysu am yr angen brys am fuddsoddiad hirdymor. Felly rwy'n croesawu'r ffaith bod Cynllun Busnes Dŵr Cymru wedi'i gyflwyno i OFWAT am y cyfnod 2025-2033 yn gynharach y mis hwn. Ac, os caiff hwn ei gymeradwyo, bydd yn arwain at raglen fuddsoddi gwerth £3.5bn gan leihau effaith y cwmni ar yr amgylchedd ac yn benodol helpu i wella ansawdd dŵr afonydd. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn dechrau ac mae'n cynnwys mesurau i leihau gollyngiadau maetholion yn sylweddol o waith trin dŵr gwastraff i afonydd mewn ardaloedd cadwraeth arbennig a chychwyn rhaglen sawl AMP i atal ei rwydwaith o 2,300 o orlifoedd storm rhag achosi niwed ecolegol i'n hafonydd. Bydd y gwaith hwn, ynddo'i hun, yn helpu i achub ein hafonydd rhag llygredd pellach a sicrhau y gall ein holl drigolion yma yn Sir Gaerfyrddin eu mwynhau. Diolch

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd James: nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

14.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD TERRY DAVIES I'R CYNGHORYDD DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR.

Cwestiwn gan y Cyngorydd Davies:

“A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad ar westy Parc y Strade yn Ffwrnes, Llanelli, ac amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru am y mater?”

Ymateb gan y Cyngorydd Price:

Diolch i chi Terry am y cwestiwn

Ers y cyhoeddiad ddechrau mis Hydref bod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi tynnu eu bwriad i ddefnyddio gwesty Parc y Strade yn ôl, mae'r perchnogion, wrth gwrs, wedi dweud eu bod am ailagor y gwesty.

Rwy'n siŵr y byddai pob aelod am weld y safle'n cael ei ddefnyddio unwaith eto, ac rwy'n sicr o'r farn bod angen i hyn ddigwydd cyn bo hir.

Nid yw'r penderfyniad ynghylch a fydd y safle'n cael ei weithredu gan y perchennog presennol, neu berchennog arall, yn un y gallwn ni, fel cyngor, ei wneud - wedi'r cyfan mae'n fenter breifat, ond yn amlwg po hiraf y bydd y safle yn wag, y mwyaf fydd adeiladwaith yr adeiladau yn dirywio, a'r mwyaf fydd y gost i sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon dderbyniol eto.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Ar ôl siarad â nifer o bobl yn Llanelli ac aelodau yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'n amlwg bod pobl leol am weld y safle naill ai'n cael ei ddefnyddio fel gwesty unwaith eto, neu'n cael ei ddatblygu i fod yn ased arall a all fod o fudd i'r dref, ac i hynny ddigwydd cyn gynted â phosibl. Nid oes neb am weld y safle'n parhau i fod yn adfeiliedig am gyfnod hir.

Gan nad oes bygythiad y caiff ei ddefnyddio gan y Swyddfa Gartref bellach, mae angen eglurder arnom nawr gan y perchnogion o ran sut y maent yn bwriadu defnyddio'r safle unwaith eto, ac amserlen fanwl ar gyfer unrhyw waith. Mae'n bwysig i'r gymuned leol ddeall yn llawn gwmpas y gwaith sydd ei angen er mwyn i'r safle gael ei ddefnyddio unwaith eto.

Bydd yr aelodau'n cofio i mi ysgrifennu at y Llywodraeth Geidwadol yn eu hannog i dynnu'n ôl o'r safle, ac o ganlyniad i'r llythyr hwnnw, cefais ohebiaeth bellach gan Lywodraeth y DU dim ond yr wythnos diwethaf. Yn y llythyr hwnnw, dyddiedig 1 Tachwedd, mae Llywodraeth y DU yn datgan eu bod bellach wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ar ymarfer gwersi a ddysgwyd a hwylusir gan Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Yn amlwg, mae hyn yn bwysig, gan eu bod wedi methu, yn fy marn i, â dysgu'r gwersi o brofiad gwersiyll Penalun.

Yn y cyngor hwn, wrth gwrs, rydym wedi dechrau meddwl cryn amser yn ôl am sut y gellir gwneud gwelliannau ac, yn wir, ers i stori Parc y Strade ddod i'r amlwg ym mis Mai, rwyf wedi bod yn dadlau bod ffordd arall o reoli'r broses loches yma yng Nghymru.

Fel y mae aelodau'n ymwybodol, rwyf wedi datgan yn gyson y dylai Llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru fod â rôl ganolog wrth ddatblygu dull Cymru gyfan o ymdrin â llety lloches brys, yn hytrach na gadael y mater i Lywodraeth y DU nad oes ganddi syniad o'r cyd-destun lleol yn aml iawn - fel y gwelsom yn achos gwesty Parc y Strade.

Codais hyn dros yr haf gyda Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ac yng nghyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gydag Arweinwyr eraill, ac felly roedd yn braf bod holl arweinwyr awdurdodau lleol Cymru wedi cytuno yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 15 Medi i dderbyn cynnig yn ffurfiol i ddatblygu ffordd ymlaen newydd, gydweithredol ar gyfer cynllunio llety lloches yng Nghymru. Roedd yn braf bod llawer o'r pryderon yr oeddem wedi'u codi, a'r profiadau yr oeddem wedi'u rhannu, yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw yn y cynnig hwnnw, a oedd yn ceisio datblygu perthynas newydd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol Cymru - lle mae parch cydradd, yn hytrach na Llywodraeth y DU yn dweud wrthym yn lleol beth sy'n mynd i ddigwydd, heb lawer o gyfle neu unrhyw gyfle o gwbl am fewnbwn lleol.

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru bellach wedi cyflwyno'r cynnig hwnnw i'r Llywodraeth Geidwadol yn Llundain, ac rwy'n gobeithio y byddai'r Llywodraeth Geidwadol yn edrych ar y cynnig hwnnw ac yn ei dderbyn.

O'n safbwynt ni, yma yn Sir Gaerfyrddin wrth gwrs, yr hyn sy'n rhwystredig i ni, fel aelodau, yw nad oedd y trafodaethau hyn rhwng Llywodraeth Cymru a

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Llywodraeth y DU wedi digwydd yn gynharach, oherwydd petai'r model mwy cydweithredol hwn wedi'i gynnig, a'i fod ar waith, cyn mis Mai eleni, yna rwy'n gwbl argyhoeddedig na fyddem wedi gorfod dioddef yr hyn yr ydym wedi gorfod ei ddioddef yn Llanelli.

Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod Dafydd Llewelyn, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, wedi amcangyfrif bod Llanast Parc y Strade wedi costio mwy na £300k i Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n ceisio ad-daliad, ac mae wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman, i wneud y pwynt hwnnw.

Gallaf gadarnhau y bore yma, Gadeirydd, y byddaf innau hefyd yn gwneud cais am ad-daliad gan y Llywodraeth Geidwadol am gostau yr aeth yr awdurdod hwn iddynt oherwydd y Llanast dros y chwe mis diwethaf.

Mae swyddogion yr awdurdod hwn wedi treulio dros 2,700 o oriau, ie 2,700 o oriau, yn delio â'r mater hwn. Yn ogystal, rydym hefyd wedi colli incwm oherwydd y seremonïau priodasau a gafodd eu canslo a'r incwm a gollwyd yn sgil hynny, wrth gwrs, i gofrestryddion, er enghraifft. Daw hyn ar adeg pan mae straen sylweddol ar y gyllideb, fel y clywsom yn gynharach y bore yma, ac mae swyddogion wedi cael eu tynnu i ffwrdd o'u prif ddyletswyddau er mwyn delio â'r Llanast hwn.

Cafwyd cyfanswm o bron i £230,000 o gostau o ganlyniad uniongyrchol i gynnig diffygiol y Llywodraeth Geidwadol, ac rwy'n credu bod dyletswydd ar y Llywodraeth Geidwadol i ad-dalu'r awdurdod hwn am y costau hynny.

Gadeirydd, dylid canmol y dyfalbarhad a'r penderfyniad a ddangoswyd gan gymaint yn ystod y misoedd diwethaf, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau, swyddogion, partneriaid a thrigolion lleol am eu cydweithrediad a'u hymdrechion yn ystod y misoedd diwethaf. Yr hyn sy'n amlwg yw bod angen i ni fanteisio ar yr egni hwnnw, i droi'r rhwystredigaeth honno'n gamau cadarnhaol, a sicrhau bod pawb yn gytûn, wrth i ni i gyd gymryd camau i wneud Llanelli yn dref ffyniannus, gynaliadwy, groesawgar a llwyddiannus y gwyddom y gall fod.

Fel bob amser, Gadeirydd, byddaf yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ym Mharc y Strade ac am drafodaethau pellach â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn.

Diolch yn fawr

Cwestiwn atodol gan y Cyngorydd Davies: Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

14.3. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD MEINIR JAMES I'R CYNGHORYDD ALED VAUGHAN OWEN, AELOD CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD

Cwestiwn gan y Cyngorydd James:

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

“Mewn ymateb i'r Datganiad o'r Argyfwng Hinsawdd yn 2019, ydy'r Cyngor yn bwriadu datgarboneiddio ein fflyd cerbydau ysgafn?”

Oni fyddai gosod amserlen a thargedau ystyrion yn neges glir i drigolion Sir Gâr ein bod yn cymryd ein cyfrifoldebau o ddifrif, ac yn gyfle i ni arddangos yr arbedion costau a manteision fflyd drydan i fusnesau a sefydliadau o fewn ein Sir?”

Ymateb gan y Cynghorydd Vaughan Owen:

Diolch yn fawr iawn i chi, Gynghorydd James, ac mae eich cwestiwn yn codi mater hollbwysig sy'n effeithio nid yn unig ar yr amgylchedd ond hefyd ar ein hiechyd a'n lles. Mae'n ymwneud â'r angen dybryd i ddatgarboneiddio ein fflyd gyhoeddus o gerbydau. Nid mater o bryder amgylcheddol yn unig yw hwn. Mae'n hanfodol ar gyfer ein dyfodol.

Mae gwyddonwyr a sefydliadau ledled y byd wedi bod yn canu'r larwm, gan gynnwys y gwasanaeth tân yn ei gyflwyniad heddiw, ac mae'r neges yn glir, nid yw oes o'leu bellach yn gynaliadwy er mwyn ein hinsawdd ac iechyd cyhoeddus. Mae sefydliadau fel y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd, yr IPCC, a Sefydliad Iechyd y Byd wedi darparu tystiolaeth ddiymwad bod ein dibyniaeth barhaus ar danwydd ffosil yn achosi niwed difrifol i'n planed ac i'n hiechyd. Ni allwn wadu ein dibyniaeth ar o'leu.

I ni, fel awdurdod, rydym wedi ymrwymo'n llwyr i chwarae ein rhan a gosod uchelgais i fod yn sero net erbyn diwedd y degawd. Mae'r ôl troed carbon mwyaf yn deillio o'n hadeiladau annomestig ac mae rhai camau gwirioneddol arloesol yn cael eu cymryd i leihau'r galw am ynni ar ffurf trydan a gwres, fel sydd wedi'i nodi yn yr Adroddiad Blynyddol, ac mae 20% o'r allyriadau'n dod o'n fflyd ac mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol yn y maes hwn yn gyflym.

Felly, gallaf gyhoeddi, drwy weithio gyda'r Cynghorydd Edward Thomas, ein bod wedi gorchymyn, o'r wythnos hon ymlaen, bod yn rhaid i bob fflyd newydd ar draws yr awdurdod gael rhagdybiaeth o blaid cerbydau trydan. Yn amlwg, bydd asesiad yn cefnogi pob penderfyniad yn seiliedig ar y gofynion technegol, y costau a'r arbedion economaidd, y buddion o ran yr amgylchedd ac iechyd ac ymarferoldeb.

Mae'r penderfyniad hwn bellach yn llunio'r ffordd ymlaen ar gyfer strategaeth fflyd newydd sy'n addas i'r diben ac sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Yng nghyfarfod diwethaf y Panel Ymgynghorol ar Newid yn yr Hinsawdd a'r Argyfwng Natur, cytunodd yr aelodau i gynnal archwiliad dwfn ar fflyd a thrafnidiaeth ar draws yr awdurdod. Rydym yn ffodus bod gennym aelodau gwybodus ac angerddol o bob rhan o'r siambr a fydd yn gallu casglu tystiolaeth gan arbenigwyr ac eraill sydd wedi dechrau'r daith a gyda'n gilydd byddwn yn llunio strategaeth fflyd newydd fentrus, gyffrous a fydd yn cael ei harchwilio a'i gwella, gobeithio, gan y Pwyllgor Craffu Lle a Chynaliadwyedd. Bydd dealltwriaeth y panel a'r pwyllgor craffu yn rhoi argymhellion i'r Cabinet ynghylch

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

mesurau ymarferol i gyflymu'r broses drawsnewid, gan osod targedau uchelgeisiol a'n gyrru'n agosach at y nod sero net.

Mae angen i ni gamu i ffwrdd o wneud llai o ddrwg mewn ffyrdd gwell.

Mae angen i ni gamu i ffwrdd o gyfleoedd cynyddol yn y mannau anghywir a chanfod ffiniau'r hyn sy'n bosibl.

Ond nid ydym yn dechrau o'r dechrau; ar hyn o bryd mae tua 17% o'n ceir yn Gerbydau Allyriadau Isel lawn ond, yn rhanbarthol, rydym wedi bod ar y blaen o ran y fflyd fwy, gan gynnwys tair lori sbwriel a'r 8 bws trydan Traws Cymru sy'n mynd o Gaerfyrddin i Aberystwyth.

Mae'r rhain wedi rhoi cymaint o ddealltwriaeth a gwybodaeth i ni am dechnoleg a gallu cerbydau trydan - dychmygwch fws sy'n gallu teithio 230 milltir ar un gwefriad ac yna ailwefru mewn 90 munud.

Rydym hefyd wedi meithrin sgiliau dylunio ac adeiladu yn y sir wrth ddatblygu'r orsaf gwefru yn Nant-y-ci.

Mae gan bob awdurdod lleol heriau daearyddol unigryw, ac mae gan bob un ei rwystrau a'i gyfleoedd ei hun, ond drwy gydweithio gallwn ddefnyddio'r cerbyd cywir yn y lle cywir a dysgu, methu a rhannu fel y gall y wlad hon ddatgarboneiddio'r fflyd gyhoeddus yn sylweddol. Rydym eisoes yn rhan o gytundeb prynu Cymru gyfan sy'n gallu edrych ar opsiynau cyllido, ac mae arbedion maint yn golygu lleihau costau yn sylweddol a lleihau'r amser rhagarweiniol ar gyfer cerbydau hefyd. Rydym wrthi'n archebu 20 o gerbydau masnachol ysgafn trydan.

Bydd ein cynllun gweithredu gyda Phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn golygu ein bod yn gweithio'n fwy cydweithredol ar draws y sir o ran y seilwaith gwefru. Mae pob sefydliad ar ei daith datgarboneiddio ei hun ond bydd galluogi pob partner i gael mynediad at rwydwaith gwefru ei gilydd yn cyflymu'r achos busnes dros ddatgarboneiddio'r fflyd.

Ond hefyd, mae hyn yn ymwneud â sut rydym yn galluogi cymdeithas i ddatgarboneiddio'r ffordd y mae'n teithio. Dylai cael fflyd o Gerbydau Allyriadau Isel lawn fod yn rhywbeth y byddem am ei rannu ag eraill. Rydym eisoes wedi buddsoddi'n helaeth mewn rhwydwaith gwefru ledled y sir, ac rydym yn edrych ar ffyrdd arloesol o ddatblygu cyfleusterau gwefru ar y stryd. Rhaid i'r newid i drafnidiaeth carbon isel fod yn deg ac yn gyfiawn a phwy a wŷr, efallai y byddwn yn dechrau meddwl hyd yn oed yn fwy agored ac ymrwymo i sicrhau bod rhai o'n ceir adrannol ar gael fel cerbydau clwb ceir cymunedol a gwneud mwy o ddefnydd o dariffau gwefru dros nos. Mae hyrwyddo agweddau cadarnhaol datgarboneiddio'r fflyd, lleihau allyriadau carbon, gwella ansawdd aer, chwalu rhywfaint o wybodaeth gamarweiniol sy'n cael ei hyrwyddo gan y rhai sy'n dal i fuddsoddi'n helaeth mewn olew a nwy, i gyd yn bethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud ochr yn ochr â newid ein fflyd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Dyma'r amser i groesawu'r chwyldro gwyrdd, rydym yn cyflymu ar hyd y daith hon, ac mae'n rhaid i ni beidio ag edrych yn y drych ôl a dweud, dyma sut rydym wastad wedi gwneud pethau. Mewn gwirionedd dylem fod yn edrych yn ôl a dweud, a allwch chi gredu sut roeddem yn arfer gwneud pethau?

Mae'r heol o'n blaenau ni yn anwastad ac yn ansicr ond mae datgarboneiddio'r fflyd fel paratoi'r ffordd at ddyfodol cynaliadwy lle mae pob cerbyd yn cynrychioli cam tuag at lwybr glanach a gwyrddach.

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd James: Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

15. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda dan 15.1 – 15.10 ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Y CYNGOR SIR

6 RHAGFYR 2023

**PWNC:
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU
CYMDEITHASOL 2022/23**

Y Pwrpas:

Mae'n ofynnol yn statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella.

Hwn yw'r adroddiad blynyddol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch perfformiad ein Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn y sir.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i Aelodau gwestiynu'r cynnwys ac mae'n rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwr Statudol ystyried unrhyw sylwadau a allai fod gan Aelodau etholedig ar gyfer y dyfodol.

Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Bod adroddiad blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch perfformiad y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin, 2022/23 yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau:

Mae'r Cyfarwyddwr o'r farn bod craffu ar yr adroddiad hwn yn wleidyddol yn elfen bwysig yn y broses ddatblygu a bydd yn cael ei ddiwygio drwy gydol y gwahanol gamau cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn yn derfynol yn ystod haf 2023.

Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad:	OES - 30 Hydref 2023
Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad	OES – 6 Rhagfyr 2023

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:-
Y Cynghorydd J. Tremlett (Deiliad y Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

Y Gyfarwyddiaeth:

Cymunedau

Enw Pennaeth y
Gwasanaeth:

Jake Morgan

Swyddi:

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau
Cymunedol (Cyfarwyddwr
Statudol y Gwasanaethau
Cymunedol)

Ffôn: 01267 224698

Cyfeiriadau E-bost:
JakeMorgan@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY

STATUTORY DIRECTOR OF SOCIAL CARE SERVICES' ANNUAL REPORT 2022/23

The Annual Report examines each Service area within Social Care and shows how service strategies, actions, targets and service risks will be addressed and delivered operationally by the service this year based on the approved budget.

The Annual Report (attached) comprises an overview provided by the Director of Social Services, which provides information on how we have performed in 2022/23 and an assessment on the future, together with our strategic priorities for 2023/24.

The Report links closely with the Directorate Business Plans for Community Services and Education & Children's Services departments.

Following publication of the report to the public (after it has been presented to full Council), Care Inspectorate Wales (CIW) and Welsh Government will complete their analysis and review of the report. There will be a formal meeting with CIW in December to discuss their analysis and proposed plan. This will be followed by an Annual Letter to Council confirming their analysis and inspection plan.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

Signed: **Jake Morgan**

Director of Social Services

Policy, Crime & Disorder and Equalities	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Staffing Implications	Physical Assets
YES	YES	YES	YES	YES	YES	YES

1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The Annual Report will be an important contribution to the Council's Improvement Plan.

2. Legal

The Annual Report forms an important part of the statutory duties of the Director of Social Services:

"The Director will present to Council, publish and report on an annual statement of plans for performance and improvement"

3. Finance

There are no financial implications in the report. However, the report highlights some budget pressures which will need to be considered in the budget setting process for 2024/2025.

4. ICT

The PIMS system will be used to provide updated commentary of the action plan for 2023/24.

5. Risk Management Issues

Key risks have been addressed in this report with a link to the departmental and corporate risk register.

6. Physical Assets

Physical assets are included in this report in relation to service delivery.

7. Staffing Implications

Staffing implications are included in this report.

CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: Jake Morgan

Director of Social Services

1. Scrutiny Committee request for pre-determination		YES
Scrutiny Committee	Health & Social Services	
Date the report was considered:-	4 th October, 2023	
Scrutiny Committee Outcome/Recommendations:-		
RESOLVED TO RECOMMEND TO THE CABINET that the report be received.		

2. Local Member(s) - Not applicable.

3. Community / Town Council - Not applicable.

4. Relevant Partners - Not applicable.

5. Staff Side Representatives and other Organisations - Not applicable.

CABINET MEMBER PORTFOLIO
HOLDER(S) AWARE/CONSULTED

YES

Include any observations here

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information
List of Background Papers used in the preparation of this report:

THERE ARE NONE.

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
-------------------	--------------	---

Statutory Director of Social Services Annual Report

Final 2022/23



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Tudalen 23
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Contents

Introduction 3
Overview 4
Adult Services.....4
Children & Family Services 12
Direct Care Provision/Commissioned Care 22
Complaints and Compliments 26
Workforce..... 28
Welsh Language 33
Next Steps..... 34
Department’s Management Structure..... 36

Dates of Officers and Political meetings

05/09/2023	DMT
07/09/2023	CMT
04/10/2023	Scrutiny
16/10/2023	Pre Cabinet
30/10/2023	Cabinet
06/12/2023	Council

Introduction



This is my **tenth** annual report as Statutory Director of Social Services. Social Services is only a part of my corporate role. There is a statutory requirement for me to report on the performance annually to demonstrate the improvements and the significant challenges we faced during 2022/23. I also set our priorities for the current year 2023/24.

I am grateful for the council's support and commitment to Social Services as we face unprecedented workforce and demand pressures.

The inability to recruit sufficient Homecare, Residential Care and Social Work Staff reached a critical point in late 2022. In common with almost all authorities this led to long waiting lists for assessment and care. Since then, workforce initiatives including a care Academi, increased degree sponsorship and improving some terms and conditions have improved and stabilised the position in all areas. However, at the time of writing, we still face significant gaps in Homecare and Social Work.

The council faced significant financial pressures in 2022/23, we needed to deliver against a robust efficiency programme in Adult Services. Children & Family Services were well protected corporately albeit increased demand and costs create a significant challenge for the council this year as the number of looked after children continue to rise. Our prevention and demand management work along with many other initiatives in supporting us to work as efficiently as possible whilst we continue to strive to improve service user outcomes. The position for 2024/25 looks more challenging and key decisions may need to be made by the council to meet need in different ways.

Despite this, performance remains good in most areas despite unprecedented levels of demand. In particular: We still have the lowest number of looked after children for our population in Wales; Our development of Supportive Living resources for adults with Mental Health and a learning disability is really transforming lives as this programme gathers pace; our Home-first service is reducing those needing long term care at pace and our development of in house resources to rebalance the market is on the cusp of delivering a range of new and innovative resources.

I would like to say a huge thank you to all Council staff who have worked incredibly hard throughout the year to deliver the services highlighted in this report. I have been so impressed by their dedication, patience and professionalism in the way they have risen to the huge challenges. I also want to express our sincere thanks to all our statutory partners, third sector and volunteers who have contributed so much to ensuring better outcomes for those who need our help most.


Jake Morgan, Statutory Director of Social Services

Overview

Adult Services


The last year has continued to present ongoing challenges for Adult Services. Similarly, to all Councils across the UK we have been grappling with the dual challenge of increased demand and complexity of those people who need our support as well as decreasing capacity to support them linked to the ongoing social care workforce crisis. In simple terms, we do not have enough social workers or Homecare staff to firstly assess all of those that require assessment and secondly support them once they have been assessed.

Homecare delivery has reduced to just over 9,000 hours a week due to the ongoing difficulties in recruiting and retaining sufficient numbers of care workers across sectors. This has inevitably led to minimum waits for care with the risk managed through careful triage and monitoring of people's needs. Greater emphasis on reablement, therapy led step down provision and supporting people in different ways such as Direct payments has led to a significant reduction in demand when considered against the growth in the number of older people in the county. The graph below illustrates the likely demand for homecare if we had continued with the same model of care:



Innovation had made a difference in particular our efforts at smarter commissioning and contracting, a greater emphasis on early intervention, utilising technology, and workforce better, more effective reablement and the introduction of direct payments has led to a striking long-term trend of halving the number of hours of homecare. This has enabled us to manage provision whilst maintaining a stable number of residential placements and delivering a sustainable budget. From being amongst the highest providers in Wales for Homecare we are now average when considered against our population.

The graph below illustrates the 10-year trend of provision.



Note -The drop in 2015 reflected a more effective new contracting model and a drop in the number of paid for hours not a drop in the number of care hours delivered to service users.

A range of activities have had an impact in managing demand and demographic growth despite these efforts there is still a considerable waiting list of more than 100 people. However, had we not made these radical reforms over the last 10 years then we would have a waiting list of 500 people and spend of an additional £20,000,000 annually. This clearly illustrates how managing demand in this area is central to the overall financial health of the authority.

In **Older People and Physical Disability services** it has been demonstrated that working in partnership within our integrated management structure between Carmarthenshire County Council and the Local Health Board has been key. This partnership extends to Delta Wellbeing and our third sector partners who are critical to developing and delivering community preventative services as well as long-term care services.

Our strategic plan to manage demand is aligned to the development of pathways as follows:



Our priority has been to redesign these pathways of care to allow us to ensure our services are aligned to best support the population of Carmarthenshire as the population changes and the needs grow by at least 3% a year.

Our key priority has been on keeping safe those waiting for care. This has been a strength of the service over the last year. We have maintained our robust approach to triaging all referrals for social work assessments and prioritising those in greatest need. We continue to review those waiting for care, to ensure that needs have not changed and people remain safe through regular keeping in touch calls by dedicated Care and Support Coordinators in the teams. We also work with families to consider all options and are creative around how to meet support needs at home through a combination of informal and formal support.

